



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014–15

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)



# Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014–15

## Cynulleidfa

Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, Comisiynydd y Gymraeg, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, Colegau Cymru, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, sefydliadau a fforymau cyflogwyr, Estyn, undebau llafur, Canolfannau Cymraeg i Oedolion, y Ddraig Ffyni, Cyngorau Sgiliau Sector/cyrff gosod safonau, Gyrfa Cymru, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG), Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Mentrau Iaith Cymru, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

## Trosolwg

Cyhoeddwyd y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* ym mis Ebrill 2010. Mae'r strategaeth yn cynnwys targedau penodol pum mlynedd a thargedau dangosol deng mlynedd yn seiliedig ar allbynnau a gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth. Mae ymrwymiad yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau yn y strategaeth ac i gyhoeddi adroddiad blynyddol.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg mewn Addysg

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Tŷ'r Afon

Heol Bedwas

Caerffili

CF83 8WT

e-bost: [addysg.gymraeg@cymru.gsi.gov.uk](mailto:addysg.gymraeg@cymru.gsi.gov.uk)

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn

[www.llyw.cymru/addysgsgiliau](http://www.llyw.cymru/addysgsgiliau)

## Dogfennau cysylltiedig

*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – Ymgynghoriad (067/2009)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2010–11 (2011)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2011–12 (2012)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2012–13 (2013)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2013–14 (2014)*; *iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012)*; *iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen (2014)*.

Cyhoeddwyd y dogfennau cysylltiedig hyn i gyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Nodau strategol</b>	<b>4</b>
Nod strategol 1	4
Nod strategol 2	6
Nod strategol 3	12
Nod strategol 4	14
Nod strategol 5	17
Nod strategol 6	19
<b>Targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, adroddiad Mawrth 2015</b>	<b>23</b>

## Rhagair y Gweinidog

Roedd cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Ebrill 2010 yn garreg filltir bwysig yn hanes datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Am y tro cyntaf, datganodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i osod cyfeiriad strategol genedlaethol i gynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd hefyd yn nodi'n glir yr angen i wella addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

*Wrth i gyfnod y Strategaeth ddirwyn i ben, hoffwn edrych yn ôl dros y cyfnod pum mlynedd o weithredu'r Strategaeth, gan ganolbwyntio ar y prif gamau a gymerwyd i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg... ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.*

Roedd sefydlu prosesau cynllunio ar draws yr holl gyfnodau addysg a hyfforddiant yn rhan greiddiol o'r Strategaeth. Y prif ddatblygiad yn hyn o beth oedd gosod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar sail statudol. Mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno cynlluniau a'u diwygio. Mae newidiadau hefyd wedi bod i'r modd y caiff data am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar ei rannu er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio darpariaeth statudol.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau cynllunio a chyllido ôl-16, mae awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach yn cyflwyno cynlluniau blynyddol i Lywodraeth Cymru, ac mae gofyn iddynt nodi pa ddarpariaeth fydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Fel rhan o'r cytundebau dysgu seiliedig ar waith, mae darparwyr hefyd yn gorfod gosod targedau ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2011, ac yn gweithio'n effeithiol gyda'r Prifysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ystod eang o bynciau.

Yr her yn awr yw sicrhau bod yr holl brosesau cynllunio newydd yn gwreiddio ac yn cael eu gweithredu a'u gwireddu. Mae angen i awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'n partneriaid eraill chwarae eu rôl.

Pan gyhoeddwyd y Strategaeth, pennwyd pum deilliant a thargedau meintiol fel dull o fesur cynnydd. Mae'n siomedig i nodi nad yw'r holl dargedau wedi'u cyrraedd. Serch hynny, mae cynnydd wedi bod yn erbyn pedwar ohonynt, ac mae'r nifer uchaf erioed o blant saith oed yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o'r Strategaeth, a gobeithiwn gyhoeddi'r adroddiad terfynol, sydd yn benllanw ar dair mlynedd o ymchwil, yn yr hydref. Byddwn wedyn yn mynd ati i adolygu'r Strategaeth a'r targedau cyn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y cyfnod nesaf o weithredu.

Mae'n bwysig cofio bod y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan o gyfundrefn addysg genedlaethol. Roedd fy natganiad diweddar i dderbyn holl argymhellion yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yn arwydd clir y bydd rhaglen eang ac uchelgeisiol i ddiwygio a newid addysg yng Nghymru yn cael ei rhoi ar waith. Mae gweithredu argymhellion yr Athro Donaldson, law yn llaw ag argymhellion yr Athro Furlong yn *Addysgu Athrawon Yfory*, a sefydlu a gweithredu y Fargen Newydd ar gyfer ymarferwyr yn rhoi cyfle i ni ffurfio dyfodol cenedlaethau i ddod er mwyn galluogi pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i fod:

- ✓ yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- ✓ yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- ✓ yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- ✓ yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Ni all Llywodraeth Cymru wireddu ein dyhead i weld addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu a gweithredu'r newid sydd ei angen i wella safonau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg ar ei phen ei hun. Bydd angen mewnbyn ac arbenigedd gan ymarferwyr ac arweinwyr y sector wrth i ni roi'r cynlluniau hyn ar waith. Byddwn hefyd yn mynd ati o ddifri i weddnewid y modd y caiff y Gymraeg ei haddysgu yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn yng Nghymru gaffael yr iaith. Bydd hyn yn cyfrannu at wireddu ein gweledigaeth yn y Strategaeth Iaith, *iaith fyw: iaith byw* i weld y Gymraeg yn ffynnu.

Rydym yn cychwyn ar gyfnod cyffrous iawn ar gyfer addysg yng Nghymru, a bydd yr iaith Gymraeg yn rhan greiddiol o'r newidiadau i'r gyfundrefn addysg.



**Huw Lewis AC**  
**Gweinidog Addysg a Sgiliau**

# Nodau strategol

## Nod strategol 1

**Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.**

### Gwaith cynllunio awdurdodau lleol

#### Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ers pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi eu Cynlluniau statudol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2014 i 2017. Mae hefyd yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r cyhoedd a chyflwyno eu Cynlluniau i Weinidogion Cymru. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw:

- ei gymeradwyo ar y ffurf y cafodd ei gyflwyno,
- ei gymeradwyo gyda diwygiadau, neu
- ei wrthod a pharatoi Cynllun arall a fydd yn cael ei drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod

Cafodd y 22 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gyflwynwyd eu hystyried yn fanwl gan Weinidogion Cymru. Cafodd tri Chynllun eu cymeradwyo a chafodd 19 arall eu cymeradwyo gyda diwygiadau. Mae pob awdurdod lleol wedi cynnal adolygiad blynyddol o'u Cynlluniau ac wedi'u cyflwyno i Weinidogion Cymru.

#### Trefniadaeth ysgolion

Ehangwyd y ddarpariaeth o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn mwy nag un awdurdod lleol yn ne Cymru yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf ac mae gwaith ymgynghori wedi mynd rhagddo'n ddiweddar ynghylch ehangu rhagor o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Mae dau awdurdod lleol wrthi'n ymgynghori ynghylch ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau newydd. Mae un o'r ysgolion hyn yng Nghasnewydd, sef un o ddim ond pedwar awdurdod lleol yng Nghymru sydd heb ganddo ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 wedi galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno newidiadau'n gyflymach o'i gymharu â'r drefn o dan y ddeddfwriaeth flaenorol.

#### Cyllid cyfalaf ar gyfer ysgolion

Nod y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw creu cenhedlaeth o ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn parhau i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu neilltuo i'r mathau priodol o ysgolion yn y manau mwyaf priodol, ar gyfer y blynyddoedd cynnar

hyd addysg ôl-16. Mae'r ffaith bod ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 oed yng Ngheredigion ynghyd ag ysgolion newydd ac estynedig cyfrwng Cymraeg a ffrwd ddeuol ar draws Cymru wedi'u cymeradwyo y llynedd yn tystio i hyn.

Mae disgwyl i'r rhaglen fuddsoddi cyfanswm o £1.4 biliwn yn seilwaith addysg Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i atgyfnerthu'r Gymraeg drwy fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog newydd neu wella a datblygu ysgolion presennol. O safbwynt ysgolion newydd, mae'n rhaid i'r achos busnes ddisgrifio'n glir y galw am ddarpariaeth Gymraeg o fewn ardal leol benodol ynghyd â chynnwys rhagamcaniadau dibynadwy ynghylch nifer y dysgwyr.

Mae cynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg yn parhau'n un o amcanion allweddol y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

### **Cynyddu mynediad at ddarpariaeth statudol cyfrwng Cymraeg**

Mae'r ymgyrch farchnata a chyfathrebu tair blynedd, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2013, yn parhau i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog fel bod rhieni'n pwysu a mesur pob opsiwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn sawl maes gan gynnwys hysbysebu yn y cyfryngau cenedlaethol a lleol a digwyddiadau lleol.

Yn 2014-15 datblygwyd tair ymgyrch leol oedd yn targedu ardaloedd o fewn awdurdodau lleol lle mae'r galw am addysg Gymraeg yn isel ar hyn o bryd. Yr ardaloedd hyn oedd Llanelli, Blaenau Gwent a Sir y Fflint. Trwy gydweithio â'r ysgolion lleol a phartneriaid megis Twf, Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin, darparwyd gwybodaeth a chyngor i rieni am addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog.

Yn ogystal a chynnal ymgyrchoedd lleol, yn ystod 2014-2015 rydym hefyd wedi:

- hyrwyddo addysg Gymraeg mewn pecynnau Dechrau Da a gafodd eu dosbarthu i dros 10,000 o rieni
- datblygu gwefan llyw.cymru/cymraeg er mwyn tynnu sylw at astudiaethau achos, adnoddau, cyngor a digwyddiadau lleol ym maes addysg Gymraeg
- arbrofi â sgwrs fyw drwy'r cyfryngau cymdeithasol am addysg Gymraeg gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y Fflint
- lansio ap *Cymraeg for Kids* yn yr Eisteddfod Genedlaethol er mwyn annog rhieni i ddysgu Cymraeg gyda'u plant;
- annog partneriaid, gan gynnwys Twf a Mudiad Meithrin i fabwysiadu brand a chanllawiau 'Cymraeg i Blant'
- cydweithio â staff ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfathrebu yn ei holl ymgyrchoedd addysg, e.e. Mae addysg yn dechrau yn y cartref.

Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol y Llywodraeth sef facebook/ChoiceDewis a gwefan llyw.cymru/cymraeg i gyfathrebu negeseuon a chefnogi'r ymgyrchoedd

## **Y Blynyddoedd Cynnar**

### **Gofal plant**

Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn ystyried o fewn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y berthynas rhwng Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'u cynlluniau i estyn gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae'r grantiau gaiff eu dyfarnu i sefydliadau sy'n cynnig gofal plant cyfrwng Cymraeg hefyd yn ffordd o sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer plant a'u rhieni/gofalwyr.

### **Mudiad Meithrin**

Yn ystod 2014-15 cafodd y grant hwn ei ddefnyddio'n bennaf i gryfhau'r cydweithredu gydag awdurdodau lleol drwy wneud gwell defnydd o'r data sydd ar gael. Cafodd y data mae'r Mudiad Meithrin yn eu casglu eu rhannu gyda phob awdurdod lleol er mwyn hwyluso'r broses gynllunio. Bwriedir defnyddio'r grant yn 2015-16 ar gyfer treialu modelau cyflenwi gwahanol er mwyn estyn a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg. Y nod yw ystyried y ffordd orau o greu darpariaeth sy'n fforddiadwy ac y mae modd i bobl fanteisio arni. Bydd y grant hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer targedu cynulleidfaoedd penodol.

### **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (WPPA)**

Derbyniodd y ddwy Gymdeithas grant o £50,000 yr un gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen hyfforddiant iaith ar gyfer ymarferwyr gofal plant sef 'Un, Dau, Tri – Hwyl a Sbri'. Caiff y rhaglen ei darparu gan Brifysgol De Cymru, mewn partneriaeth â'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion rhanbarthol. Bydd hyn yn cynorthwyo ymarferwyr i feithrin y sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei chyflwyno i blant ifanc. Bydd y ddwy Gymdeithas yn codi ymwybyddiaeth o'r cwrs hyfforddiant, yn cynnig cyrsiau blasu ac yn annog ymarferwyr i fynychu.

## **Nod strategol 2**

**Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.**

### **Llwybrau Dysgu 14–19**

Cydymffurfiodd y pedwar rhwydwaith rhanbarthol â gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ystod 2014-15 a oedd yn cynnwys cynnal yr opsiynau o ran cyrsiau cyfrwng Cymraeg a chysiau dwyieithog yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mewn addysg ôl-16. Dengys dadansoddiad o'r cyrsiau a gynigiwyd yn 2014/15 ac a ariannwyd gan y cyllid cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a glustnodwyd ar gyfer dysgwyr 14-19 oed fod cyfanswm o 152 o gyrsiau ar gael. Roedd y nifer hwn yn cynnwys 74 o gyrsiau Lefel 3.



Clustnodwyd cyfanswm o £1.8 miliwn i barhau i gefnogi darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy'r rhwydweithiau rhanbarthol 14–19, a thrwy weithgareddau'r tri fforwm cyfrwng Cymraeg trawsffiniol. Mae prif weithgareddau'r fforymau yn cynnwys hybu cydweithio er mwyn cyflawni cyrsiau cyfrwng Cymraeg traws-sector, sicrhau parhad ieithyddol priodol a chynnig profiadau buddiol i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg o fewn cyd-destun pynciau galwedigaethol y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Y flwyddyn nesaf (2015-16) bydd y grant Llwybrau Dysgu yn dod yn rhan o'r Grant Gwella Addysg cyfansawdd, gydag amcanion penodol ar gyfer cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19.

## **Datblygiadau yn y ddarpariaeth ôl-16 ym maes addysg bellach**

### **Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd**

Ers mis Medi 2014 mae 9 coleg addysg bellach o blith 13 yn parhau i dderbyn cyllid grant i gefnogi swyddogaeth yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd. Wrth i'r grant ddod i ben, y mae'n galonogol bod y colegau hynny yn parhau i gyflogi eu hyrwyddwyr er mwyn cynnal y gwaith o gynllunio a gweithredu strategaethau eu colegau ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn ogystal, mae'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn gweithredu fel lladmeryddion y Gymraeg sy'n cynnwys cynnal a datblygu sgiliau ieithyddol y dysgwyr tra'u bod yn astudio yn y coleg.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2013/14 gwelodd 7 o'r 13 coleg gynnydd yn nifer y gweithgareddau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog. Mae'r chwech sy'n weddill wedi cynnal eu darpariaeth, gyda rhai amrywiadau, wrth ymateb i anghenion dysgwyr o un flwyddyn i'r llall. Yn gyffredinol, roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y colegau addysg bellach wedi bod yn weddol sefydlog ersers 2011/12. Gwelwyd fod dylanwad yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn dechrau dwyn ffrwyth yn 2013/14, gyda myfyrwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth sydd ar gael, lle nad oedd hynny'n bosibl cyn i'r grant gael ei sefydlu.

### **Sgiliaith**

Yn ystod 2014-15 mae Sgiliaith wedi parhau i gynnal ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant sy'n amrywio o Fodiwl MA mewn Methodoleg Addysgu Dwyieithog i gwrs hanner diwrnod y Pecyn Cymorth Dwyieithrwydd. Yn ogystal â hyfforddi tiwtoriaid addysg bellach, mae Sgiliaith hefyd yn cefnogi tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith mewn partneriaeth â'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Mae Sgiliaith hefyd yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth i gyrff llywodraethu ac uwch dimau rheoli'r colegau addysg bellach ar y cyd â ColegauCymru.

### **ColegauCymru**

Mae'r cydweithio â ColegauCymru yn parhau er mwyn cefnogi'r colegau addysg bellach. Derbyniodd ColegauCymru gyllid grant yn ystod 2014-15 i gynnal pedwar prosiect a fyddai'n rhoi cyfleoedd i diwtoriaid gydweithio er

budd datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Cefnogwyd y prosiectau canlynol:

- Creu llyfrgell adnoddau blynyddoedd cynnar a gofal ar-lein.
- Cyhoeddi taflenni i fyfyrwyr colegau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Rhoi profiadau amrywiol i fyfyrwyr ar gyrsiau galwedigaethol er mwyn ehangu eu gwybodaeth pynciol ac ehangu eu gorwelion o safbwynt defnyddio'u sgiliau Cymraeg.
- Cyhoeddi adnoddau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer y sector addysg bellach er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r Gymraeg a Chymru.

### Llais y Dysgwr Cymru

Dim ond deg y cant o'r dysgwyr a ymatebodd i arolwg Llais y Dysgwr Cymru yn 2014 a nododd eu bod yn awyddus i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (1 y cant) neu'n ddwyieithog (9 y cant) a dywedodd 45 y cant eu bod wedi cael cynnig dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (11 y cant) neu'n ddwyieithog (34 y cant). Mae'r ystadegau hyn yn debyg iawn i ystadegau'r flwyddyn flaenorol. Mae Tabl 1 yn dangos bod y diffyg cydlyniant rhwng y cyflenwad a'r galw yn parhau, ond mae'r bwlch yn lleihau. Cafodd 41 y cant o'r dysgwyr a nododd ei bod yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig gyfle i wneud hynny, o'i gymharu â 29 y cant y llynedd (sy'n cynrychioli cynnydd o 12 pwynt canran). Cafodd 67 y cant o'r rhai a nododd ei bod hi'n well ganddynt ddysgu'n ddwyieithog y cyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (14 y cant) neu'n ddwyieithog (53 y cant) o'i gymharu â 62 y cant y llynedd (sy'n cynrychioli cynnydd o bum pwynt canran). Yn ogystal, mae canran y dysgwyr nad oeddent yn gallu cofio beth gafodd ei gynnig iddynt wedi gostwng pum pwynt canran (o 14 y cant yn 2013 i 9 y cant yn 2014) i'r rhai oedd yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig a thri phwynt canran (o 15 y cant yn 2013 i 12 y cant yn 2014) i'r rhai yr oedd yn well ganddynt ddysgu'n ddwyieithog.

Mae'r darparwyr wedi derbyn adroddiadau manwl ar ganlyniadau eu harolygon ac mae disgwyl iddynt lunio cynllun gweithredu mewn ymateb iddynt. Caiff Llais y Dysgwr Cymru ei ddefnyddio fel llwybr ymholi allweddol yn ystod arolwg gan Estyn.

		2013	2014	Newid o ran pwyntiau canran
<b>O blith y rhai a ddywedodd ei bod hi'n well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig</b>	% a gafodd gyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig	29	41	+12
	% a gafodd gyfle i ddysgu'n ddwyieithog	37	29	-8
	% na chawsant gyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	20	20	0
	% Ddim yn gwybod	14	9	-5

<b>O blith y rhai a ddywedodd ei bod hi'n well ganddynt ddysgu'n ddwyieithog</b>	% a gafodd gyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig	8	14	+6
	% a gafodd gyfle i ddysgu'n ddwyieithog	54	53	-1
	% na chawsant gyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	22	21	-1
	% Ddim yn gwybod	15	12	-3

Tabl 1: Canran y dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 sydd am ddysgu yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog, sydd yn cael cynnig y cyfle i wneud hynny (Arolwg Llais y Dysgwyr Cymru 2014/2015).

### Dysgu seiliedig ar waith

Mae cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn parhau'n flaenoriaeth. Mae'r cynnydd hwn ym maes addysg ôl-16 yn agwedd hanfodol ar y gwaith o sicrhau bod sgiliau Cymraeg disgyblion sy'n gadael addysg ffurfiol yn bodloni'r sgiliau iaith y mae cyflogwyr yn galw amdanynt.

Mae camau wedi cael eu cymryd i ddatblygu ymwybyddiaeth darparwyr dysgu seiliedig ar waith o'r Gymraeg a gwella eu dealltwriaeth o anghenion a gofynion dysgwyr a chyflogwyr. Mae heriau i'w hwynebu o hyd, fodd bynnag, ac yn benodol o ran darbwyllo dysgwyr sydd eisoes yn meddu ar sgiliau Cymraeg i barhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Dechreuodd y contract cyflenwi newydd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ar 1 Ebrill 2015, a oedd yn cyd-daro â newidiadau i fanyleb y contract er mwyn sicrhau bod mwy o bwyslais ar ddysgu cyfrwng Cymraeg o fewn y rhaglen. Roedd gofyn i ddarparwyr gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg a gaiff ei ddiweddarau bob blwyddyn cyn dechrau'r contract. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau unigol sy'n cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhai o'r camau gweithredu penodol sy'n cefnogi datblygiad dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Ymestyn y cyllid grant ar gyfer Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i gefnogi swydd Hyrwyddwr Dwyieithrwydd am dair blynedd arall. Mae'r swydd hon yn cefnogi'r rhwydwaith darparwyr i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Dyranu cyllid ychwanegol yn benodol er mwyn cefnogi prentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Darparu cwrs hyfforddiant iaith Gymraeg, wedi'i deilwra'n arbennig, i aseswyr dysgu seiliedig ar waith.

## **Addysg uwch**

Mae *Datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn cadarnhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Yn 2012/13 roedd 5,465 o fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dilyn rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gynnydd o 16 y cant ers 2011/12. Gwnaeth cyfran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a oedd yn dilyn rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd gynyddu, o'i gymharu â 2011/12 (4.2 y cant yn 2012/13 a 3.8 y cant yn 2011/12). Ac eithrio'r Gymraeg a phynciau cysylltiedig, y pynciau mwyaf poblogaidd i'w hastudio gan fyfyrwyr, lle roedd elfen o'r cyrsiau yn y Gymraeg, oedd addysg, y celfyddydau creadigol a phynciau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth. (Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru – [Y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch, 2012/13](#))

## **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cyflawni cryn gynnydd ers iddo gael ei sefydlu yn 2011. Cyhoeddwyd [gwerthusiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) ym mis Ionawr 2015 a nodwyd bod cryn gynnydd wedi'i gyflawni o safbwynt ehangu ac estyn y cyfleoedd a oedd ar gael i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd yr adroddiad fod darlithwyr newydd wedi'u penodi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, roedd gwahanol adnoddau academaidd – a oedd ar gael yn electronig gan fwyaf – wedi'u datblygu ac roedd strategaeth genedlaethol wedi'i llunio am y tro cyntaf ynghylch addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgolion. Nodir yn ogystal yn yr adroddiad fod gan y Coleg 5,000 o aelodau sy'n cynnwys darpar fyfyrwyr, myfyrwr prifysgol, staff prifysgol ac aelodau cyswllt. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn roedd 19 o gynlluniau pwnc wedi'u cymeradwyo ar gyfer cysoni neu ddatblygu'r meysydd astudio ac ymchwil oedd yn cael eu cynnig.

## **Cynllun Staffio Academaidd**

Mae Cynllun Staffio Academaidd y Coleg yn darparu cyllid i brifysgolion er mwyn eu galluogi i gyflogi staff academaidd at ddiben gwella eu capasiti i addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed yw cael 100 o swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg erbyn y flwyddyn academaidd 2015/16. Mae 94 o benodiadau wedi'u gwneud hyd yma ac mae cyfran gymharol debyg o benodiadau wedi'u gwneud mewn sefydliadau sydd â hen draddodiad o gynnig darpariaeth Gymraeg a sefydliadau lle nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol eto. Mae'r staff a gyflogir yn gweithio ar draws ystod eang o ddisgyblaethau ond mae pwyslais cynyddol ers dwy flynedd ar ddisgyblaethau sy'n gysylltiedig â meysydd gwaith lle bernir bod galw am sgiliau Cymraeg.

## **Ysgoloriaethau addysg uwch cyfrwng Cymraeg**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2011, wedi sefydlu a chynnal cynllun ysgoloriaethau i israddedigion a myfyrwyr graddau

meistr. Nod y cynllun hwn yw annog mwy o fyfyrwyr i astudio cyfran uwch o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd 167 o ysgoloriaethau eu dyfarnu i israddedigion a chafodd 13 o ysgoloriaethau eu dyfarnu i fyfyrwyr graddau meistr yn 2014/15.

### **Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg**

Mae dros 200 o gyflogwyr wedi nodi eu cefnogeth i Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg. Dyma ffordd o adnabod ymgeiswyr am swyddi sydd â'r sgiliau angenrheidiol i weithio ar lefel broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwblhaodd 157 o ymgeiswyr y tasgau gofynnol ar gyfer ennill y dystysgrif yn 2014. Llwyddodd 134 o'r ymgeiswyr hyn gyda 19 ohonynt yn derbyn rhagoriaeth.

### **Dysgu Oedolion yn y Gymuned**

Gofynnwyd i ddarparwyr ganolbwyntio ar dri maes allweddol yn 2014/15 sy'n cefnogi ein blaenoriaeth gyffredinol i drechu tlodi, sef

- Llythrennedd a Rhifedd i Oedolion
- Llythrennedd Digidol
- Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).

Gofynnwyd i ddarparwyr yn ogystal ei gwneud hi'n haws i bobl fanteisio ar addysg Gymraeg lle bo'n bosibl a sicrhau bod eu darpariaeth yn adlewyrchu anghenion eu cymunedau lleol.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn parhau'n gymysg. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynllunio'r modd y caiff Llythrennedd Digidol ei gyflenwi'n ddwyieithog ond nid yw unrhyw awdurdod lleol yn cynnig cyrsiau Rhifedd neu Lythrennedd i Oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig gweithgareddau ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r bwriad o annog y dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau Cymraeg i Oedolion. Mae llawer hefyd yn cydweithio mewn partneriaeth â'u Mentrau Iaith Lleol er mwyn cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

At ei gilydd, nid oes cysondeb ar draws Cymru o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gall pobl fanteisio arni.

Rydym yn cydweithio â'r awdurdodau lleol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth lle y bo'n bosibl drwy rannu arferion da, hybu sesiynau blasu cyfrwng Cymraeg a chyflogi tiwtoriaid a all weithio'n ddwyieithog. Bydd hyn oll yn creu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### **Nod strategol 3**

**Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.**

### **Dilyniant ieithyddol**

Mae awdurdodau lleol yn parhau i nodi yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sut y maent yn sicrhau dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg pan fo plant yn pontio rhwng:

- addysg feithrin nas cynhelir a ariennir ac addysg feithrin a ariennir
- y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

### **Cymraeg iaith gyntaf**

#### **Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio**

Mae'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg wedi'u datblygu ochr yn ochr â'i gilydd gan gymryd i ystyriaeth agweddau sy'n benodol i'r ddwy iaith. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu llythrennedd deul ac yn rhoi sylfaen i ddysgu ieithoedd eraill, gan gynnwys ieithoedd tramor modern, yn yr ysgol ac yng nghyd-destun dysgu gydol oes. Mae datganiad wedi'i gynnwys yn y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ac yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn amlinellu y dylai dysgwyr gael eu hannog i ddefnyddio sgiliau trawsieithu. Mae cyfryngu rhwng gwahanol gynulleidfaoedd a chymryd deunydd sy'n bodoli mewn un iaith a chyfleu ei gynnwys a'i effaith gyffredinol yn yr iaith arall yn sgiliau pwysig ar gyfer dysgwyr mewn cymdeithas ddwyieithog.

#### **TGAU**

O fis Medi 2015, bydd cymwysterau TGAU Cymraeg iaith a Saesneg iaith newydd yn cael eu cyflwyno. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n fwy ar yr agweddau trafodaethol ar iaith gyda sgiliau darllen, ysgrifennu a llafaredd (siarad a gwranddo) i gyd yn cyfrif tuag at y radd derfynol. Bydd y cymwysterau newydd yn debyg iawn i'w gilydd yn y ddwy iaith ond bydd mwy o bwysoliad ar yr elfen llafaredd yn y cymhwyster Cymraeg.

Gwnaed rhywfaint o newidiadau i fanyleb TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, er enghraifft, mae nofelau newydd wedi'u cynnwys fel opsiynau i'w hastudio.

#### **TAG UG/SAFON UWCH**

O fis Medi 2015, bydd y fanyleb Safon Uwch Cymraeg (iaith Gyntaf) yn cynnwys uned newydd, sef 'Y Gymraeg mewn cyd-destun'. Bydd disgwyl i ymgeiswyr astudio ac ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ffurfiau megis datganiadau i'r wasg, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau ac areithiau.

## Cymraeg ail iaith

### Cymraeg ail iaith – Dyfodol Llwyddiannus

Ym mis Mawrth 2014, cafodd yr Athro Donaldson ei benodi gan y Gweinidog i gynnal adolygiad annibynnol cynhwysfawr ac eang ei gwmpas o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a threfniadau asesu yng Nghymru. Cafodd *Dyfodol*

*Llwyddiannus*, adroddiad yr Athro Donaldson ei gyhoeddi ar 25 Chwefror 2015. Mae'n cydnabod y "manteision diwylliannol, gwybyddol ac ymarferol o ddysgu Cymraeg fel iaith fyw" a bod "safonau yn y Gymraeg yn gadarn at ei gilydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg". Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod y safonau o ran Cymraeg ail iaith "yn anwastad". I fynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r Athro Donaldson wedi awgrymu y dylid cryfhau'r ddarpariaeth iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg er mwyn sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'n awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar fanteision dwyieithrwydd, yn arbennig sgiliau sgysio yn y Gymraeg, ac y dylid "ailalinio cymwysterau iaith Gymraeg yn 16 oed â'r pwyslais arfaethedig ar siarad a gwrando a defnyddio'r iaith yn y gweithle".

### Y Sgwrs Fawr

Cafodd y Sgwrs Fawr ei lansio gan y Gweinidog yn ddiweddar i fesur hyd a lled y farn gyhoeddus am argymhellion yr Athro Donaldson. Mae'r Sgwrs Fawr yn gyfle i rieni, ymarferwyr, dysgwyr ac eraill gael dylanwadu ar ddyfodol addysg yng Nghymru. Cafodd cam cyntaf y Sgwrs Fawr ei gynnal rhwng 4 Mawrth a 8 Mai a bydd datganiad ffurfiol ar gam nesaf yr adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn cael ei wneud yn yr haf.

### Cynllun gweithredu ar gyfer Cymraeg ail iaith

Mae Uned y Gymraeg mewn Addysg yn parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymraeg ail iaith ac, yn ystod y cyfnod, cyflawnwyd y canlynol:

- Mae dau glwstwr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi bod yn gweithio ar brosiect i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Mae prosiect ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, i sefydlu a chynnal gweithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, wedi'i gwblhau.

Mae'r ddau brosiect wedi cael eu gwerthuso a bydd yr adroddiadau yn cael eu cyhoeddi maes o law.

### Cymraeg i Oedolion

Aethpwyd ati yn ystod 2014-15 i weithredu prif argymhelliad adroddiad y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion, *Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, sef sefydlu Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am ddabtlygu'r maes yn strategol ar lefel genedlaethol. Ar 12 Mai 2015, cyhoeddwyd y bydd yr Endid yn cael ei sefydlu o fewn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae gwaith arall yn ystod 2014-15 wedi cynnwys:

- Datblygu trefniadau cyllido newydd ar gyfer y maes
- Cychwyn ar y gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd a fydd yn sail i'r cyrsiau yn y dyfodol
- Datblygu trefniadau asesu newydd i'w peilota o fis Medi 2015
- Gweithredu ymgyrch farchnata genedlaethol trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

### **Sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle**

Mae nifer y rhai sy'n cofrestru ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg a'r rheini sy'n elwa ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg, fel rhan o'r rhaglenni sgiliau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn isel.

Mae rhagor o bwyslais wedi'i roi ar y ffaith bod angen ystyried datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn dilyn cyhoeddi'r mesurau perfformiad sgiliau ym mis Medi 2014; mesurau sy'n sail ar gyfer gwreiddu'r cynllun cyflawni sgiliau. Mae'r mesur 'Swyddi ar gyfer Twf' yn benodol yn rhoi ffocws pendant ar yr anghenion o ran sgiliau iaith Gymraeg o bersbectif cyflogwyr yng Nghymru.

Wrth i fanylion rhaglenni cyflogaeth a sgiliau Llywodraeth Cymru gael eu penderfynu'n derfynol ar gyfer 2014-2020, mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu yng Nghymru ac i gefnogi dysgwyr i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio yn eu swyddi presennol ac yn y dyfodol.

### **Nod strategol 4**

**Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer digonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith o ansawdd uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.**

### **Hyfforddiant ac Addysg Gychwynol Athrawon (HAGA)**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig cymhelliannau ariannol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chysiau HAGA i raddedigion. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16, y nod yw defnyddio'r cymhelliannau sydd ar gael i dargedu'r myfyrwyr mwyaf abl, a'r rheini sy'n gallu addysgu pynciau y nodwyd gan Lywodraeth Cymru bod iddynt flaenoriaeth wrth recriwtio, gan gynnwys Cymraeg. Myfyrwyr graddedig cymwys sydd â gradd dosbarth cyntaf ac sy'n ymgymryd â'u hyfforddiant TAR drwy gyfrwng y Gymraeg fydd yn cael y lefel fwyaf o gyllid, sef £20,000. Bydd y rheini â gradd 2.1 yn cael llai o gyllid, sef £10,000, a bydd y rheini â gradd 2.2 yn cael £6,000. Gallai hyfforddeion HAGA cynradd i raddedigion sydd â gradd dosbarth cyntaf fod yn gymwys i gael cymhelliant gwerth £3,000 a bydd £3,000 arall yn cael ei gynnig i fyfyrwyr cynradd sydd â gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg neu wyddoniaeth.



Mae cymhelliad arall ar gael i fyfyrwyr HAGA i raddedigion sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chynigir y cymhelliad hwnnw drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Nod y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yw rhoi hyfforddiant a chefnogaeth bellach i helpu athrawon dan hyfforddiant sydd wedi cofrestru ar gyrsiau cymwys HAGA uwchradd i raddedigion i gymhwyso er mwyn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun wedi'i dargedu at hyfforddeion sy'n dymuno addysgu pwnc uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg ond sydd angen cefnogaeth ychwanegol i wella eu sgiliau ieithyddol a'u hyder i wneud hynny. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2015/16, bydd £1,600 o grant ar gael i'r hyfforddeion (a £2,000 ar gyfer y rheini sy'n astudio cyrsiau mathemateg, ffiseg a chemeg). Yn ogystal â'r cyllid a fydd ar gael i hyfforddeion, bydd ysgolion a fydd yn cynnig lleoliad i hyfforddeion a darparwyr HAGA partner hefyd yn cael taliadau i gefnogi'r hyfforddeion sydd wedi'u cofrestru ar y cynllun gyda hyfforddiant iaith arbenigol.

Ers 2011/12, cafodd trefniadau sicrwydd ansawdd llymach eu cyflwyno ar gyfer y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Erbyn hyn, cynhelir archwiliad sgiliau iaith Gymraeg cyffredin ar gyfer pob hyfforddai sydd wedi'i gofrestru ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn digwydd pan fydd yr hyfforddai yn cael ei dderbyn ar y cynllun, ar y pwynt hanner ffordd a phan fydd yn cwblhau'r cynllun. Bydd hyn yn sicrhau safon gyson o fonitro ar draws pob Canolfan HAGA sy'n cymryd rhan yn y broses o weinyddu'r Cynllun, a bydd modd mesur y gwelliannau a'r manteision cyffredinol net i athrawon dan hyfforddiant sy'n ymgymryd â'r gwaith ychwanegol sydd ynghlwm wrth y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae adroddiadau cynnar ar y canlyniadau wedi dangos bod y rhan fwyaf o hyfforddeion yn gweld cynnydd yn eu sgiliau ieithyddol erbyn iddynt gyrraedd y pwynt canol blwyddyn, ac mewn rhai achosion gwelwyd cynnydd llawer mwy na hynny.

### **Rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn HAGA**

Roedd llythyr cylch gorchwyl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer 2014/15 yn cynnwys gwaith i helpu i gyflwyno Tystysgrif Cymhwysedd iaith Gymraeg HAGA. Rydym wedi gofyn i CCAUC ystyried cynigion ar gyfer datblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd ar gyfer Cymru gyfan i bob darpar athro sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i hwyluso hynny drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r sector HAGA. Mae CCAUC yn arwain ar hwyluso'r maes gwaith hwn.

### **Gallu a seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus**

#### **Y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg**

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn parhau i ddarparu cyfnod dwys o hyfforddiant iaith a methodoleg i ymarferwyr ar amrywiol lefelau ac mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru. Cwblhaodd 196 o ymarferwyr y cyrsiau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.

Dechreuodd y contractau newydd ar gyfer darparu cyrsiau'r Cynllun yn haf 2014. Cafodd y Cynllun ei addasu yr adeg honno, fel ymateb i werthusiad Arad Research o effaith y Cynllun Sabothol (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr

2014) yn ogystal ag adborth a gafwyd o ffynonellau eraill. Roedd y datblygiadau'n cynnwys rhoi mwy o bwyslais ar weithio rhanbarthol er mwyn gwella'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol a'r darparwr cyrsiau yn y rhanbarth, a sicrhau perthynas agosach rhwng y galw am hyfforddiant a'r ddarpariaeth cyrsiau i sicrhau bod y Cynllun yn cael gymaint o effaith â phosibl. Darparwyd adnoddau dysgu ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi hyfforddeion yn ystod eu hyfforddiant ac wedi iddynt ddychwelyd i'r ystafell ddsbarth. Cafodd cwrs newydd ar gyfer cynorthwywyr dosbarth sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ei ddatblygu hefyd yn ystod y flwyddyn, i'w dreialu yn ystod haf 2015.

### **Grant y Gymraeg mewn Addysg**

Cafodd y pedwar consortiwm rhanbarthol £5.63 miliwn yn ystod y flwyddyn fel rhan o Grant y Gymraeg mewn Addysg. Ynghyd â chyfraniadau gan yr awdurdod lleol, cafodd mwy na £8.4 miliwn ei wario yn gyfan gwbl ar weithgareddau i gefnogi gwaith o weithredu eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau trochi, darpariaeth canolfannau hwyrddyfodiaid ac amrywiaeth eang o hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr. Yn ogystal, sefydlwyd rhagor o brosiectau yn ystod y flwyddyn i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddsbarth.

Roedd y Grant yn rhan o'r gwaith ar gyfer symleiddio grantiau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i sefydlu un grant ar gyfer consortia, awdurdodau lleol ac ysgolion. O ganlyniad i'r broses hon, mae'r cyllid ar gyfer y Grant wedi'i drosglwyddo i'r Grant Gwella Addysg newydd, sydd ar gael o fis Ebrill 2015 ymlaen. Bydd y gweithgareddau a oedd yn arfer cael eu hariannu o dan Grant y Gymraeg mewn Addysg yn dal i gael eu hariannu o dan y grant newydd.

### **Y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG) a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG)**

Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (SEG) a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) cysylltiedig yn darparu cymorth ar gyfer tair blaenoriaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i ysgolion – gwella safonau mewn llythrennedd, gwella safonau mewn rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Darparodd SEG £26.1 miliwn a darparodd PDG (sy'n targedu disgyblion 5-15 oed sydd hefyd yn gymwys am brydau ysgol am ddim) £68.5 miliwn i'r consortia rhanbarthol yn 2014–15 i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau gyda'r nod o fynd i'r afael â'r tair blaenoriaeth hyn ym mhob ysgol, gan gynnwys cymorth ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd PDG yn cynyddu o £918 i £1,050 fesul disgybl cymwys yn 2015-16 ac i £1,150 yn y flwyddyn ganlynol. Ar yr un pryd, bydd y grant yn cael ei ymestyn i blant 3 a 4 blwydd oed sy'n derbyn addysg y Cyfnod Sylfaen ar gyfradd o £300 fesul disgybl. Mae SEG yn un o'r 11 o grantiau sy'n rhan o'r ffrwd gyllido unigol newydd ar gyfer 2015-16, ac mae'r grantiau hyn gyda'i gilydd yn dod i gyfanswm o £141 miliwn.

### **Hyfforddiant ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir cyfrwng Saesneg yn dal i gael ei

darparu gan y rhaglen 'Un, Dau, Tri – Hwyl a Sbri'. Mae consortiwm sy'n cynnwys y chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion, o dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg, wedi cyflwyno 16 o gyrsiau mewn lleoliadau ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae NDNA Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn parhau i gefnogi'r rhaglen drwy hyrwyddo datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ymhlith y gweithlu, gan dargedu ardaloedd a lleoliadau a fydd yn elwa ar yr hyfforddiant ac enwi unigolion i gymryd rhan yn y rhaglen. Cwblhaodd 144 o unigolion y cwrs yn ystod y flwyddyn.

## **Nod strategol 5**

### **Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.**

#### **Cymwysterau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg**

##### **TGAU a Safon Uwch**

Yn ystod 2014–15, dyfarnwyd grantiau i CBAC, OCR a Pearson i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Cynigiwyd cyfanswm o saith cymhwyster ar draws y ddau sefydliad sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae'r rhan helaeth o ddarpariaeth CBAC ar gael yn y ddwy iaith, ac eithrio nifer fach iawn o bynciau lle nad oes galw wedi bod am gymhwyster cyfrwng Cymraeg.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid, a byddwn yn parhau i wneud hynny, i sicrhau bod manylebau'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd a gyflwynir o fis Medi 2015 ar gael ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg. CBAC yw'r unig sefydliad dyfarnu a fydd yn cynnig y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd a diwygiedig sy'n cael eu datblygu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir yr holl fanylebau newydd yn y ddwy iaith ar yr un pryd, yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.

O ran cymwysterau ar gyfer pynciau nas cynigir gan CBAC, byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth ariannol i'r sefydliadau dyfarnu yn Lloegr, yn unol â'r drefn ar hyn o bryd, i sicrhau bod o leiaf un cymhwyster ym mhob pwnc ar gael yn ddwyieithog, yn ôl y galw.

##### **Cymwysterau galwedigaethol**

Yn ystod 2013-14, rhoddwyd grantiau i ddau sefydliad dyfarnu er mwyn sicrhau bod 36 o gymwysterau galwedigaethol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg - dyma'r cymwysterau y nodwyd bod eu hangen ar ysgolion i fodloni eu gofynion ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 neu ar ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i gynyddu eu darpariaeth o ran prentisiaethau Cymraeg.

#### **Adnoddau addysgu a dysgu**

##### **Comisiynu adnoddau**

Ariannwyd 60 o brosiectau i gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg a dwyieithog, gan gwmpasu ystod o bynciau cwricwlwm 3–19 a Chymraeg i Oedolion. Mae'r prosiectau yn cynnwys datblygu adnoddau mewn sawl fformat i ddiwallu'r angen am ragor o adnoddau digidol, gan gynnwys apiau.

Ar ôl ymgynghori ag ysgolion, colegau a chyhoeddwyd i gasglu tystiolaeth o'r anghenion tybiedig ym Mai 2014, cynhaliwyd saith Panel Adnabod Anghenion yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y paneli ystyried y syniadau a dderbyniwyd a blaenoriaethu prosiectau ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen gomisiynu.

Ymysg y prosiectau a gyhoeddwyd mae adnodd rhyngweithiol tairieithog ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a ddatblygwyd i ddathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Wladfa a chomisiynwyd apiau i gefnogi sgiliau rhifedd dysgwyr Cyfnodau Allweddol 1-3. I gefnogi llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 cyhoeddwyd cyfres o eiriaduron ac adnodd i wella sgiliau ysgrifennu. Parhawyd i ddiwallu anghenion dysgwyr Cyfnodau Allweddol 4 a 5 drwy ddarparu grant i CBAC er mwyn cynhyrchu fersiynau Cymraeg o werslyfrau ac adnoddau i gefnogi arholiadau CBAC.

Parhau hefyd wnaeth y gwaith o wella'r broses gomisiynu i sicrhau ei heffeithlonrwydd a'i gwerth am arian. Defnyddiwyd sianeli sefydledig megis e-gylchlythyr Dysg, gwefan Dysgu Cymru a digwyddiadau addysgol, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth am yr adnoddau a gyhoeddwyd.

### **Termiadur Addysg**

Mae'r geiriadur termau dwyieithog a ddatblygwyd gan Uned Dechnoleg, Prifysgol Bangor wedi bod ar gael ar-lein ar [www.termiaduraddysg.org](http://www.termiaduraddysg.org) ers dechrau 2012. Yn ystod blwyddyn gyntaf y grant tair blynedd a ddyfarnwyd i'r ganolfan, mae'r gwaith o gynnal a datblygu'r adnodd ymhellach wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y termau sy'n ymwneud â'r Gyfraith, Cymdeithaseg, Gofal Plant a Mathemateg. Erbyn hyn mae bron i 63,500 o dermau ar gael sydd wedi'u chwilio bron 454,000 o weithiau. Mae ap hefyd ar gael ar gyfer dyfeisiau symudol ac mae hwn bellach wedi'i osod ar dros 42,450 o ddyfeisiau.

### **Hwb**

Cafodd y llwyfan Hwb newydd ei ail-lansio ym mis Awst 2014 ar ôl cael ei ailwampio'n sylweddol yn unol ag adborth rhanddeiliaid. Mae bellach yn cynnig ffordd well o gael gafael ar adnoddau a rhyngwyneb hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio i helpu athrawon a dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol.

Lansiwyd cyfres helaeth o nodweddion newydd yn ystod 2014-2015 sy'n cynnig cefnogaeth ganolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac yn hwyluso mwy o gydweithio ar bob lefel.

Rydym wedi gwneud cynnydd wrth gyflwyno Hwb+ i ysgolion yng Nghymru. Mae Hwb+ yn cynnig llwyfan dysgu unigol i bob ysgol yng Nghymru ac yn cynnwys casgliad cwbl ddwyieithog o offer a gwasanaethau ar-lein i gefnogi a hwyluso dysgu digidol. Mae Hwb+ hefyd yn cynnig i ysgolion y gallu i greu eu gwefan gyhoeddus ddwyieithog eu hunain.

Bellach mae gan dros 99% o ysgolion ar draws Cymru eu llwyfannau dysgu Hwb+ unigol, ac mae dros 2,000 o athrawon wedi cael hyfforddiant ar Hwb+. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein rhaglenni darparu ar gyfer grwpiau ychwanegol o ddefnyddwyr fel rhieni a llywodraethwyr, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau pellach maes o law.

Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau Raglen Canolfannau Rhagoriaeth Hwb+. Ers hynny, mae 18 o ysgolion ar draws Cymru wedi'u dynodi'n Ganolfannau Rhagoriaeth Hwb+ a byddant yn arwain ar ledaenu arferion da o ran y defnydd o Hwb+ a chefnogi datblygiad a hyfforddiant ysgolion eraill yn eu rhanbarth. Mae Canolfannau Rhagoriaeth Hwb+ yn cynnwys tair ysgol gynradd Gymraeg, ac un ysgol uwchradd Gymraeg.

## **Nod strategol 6**

**Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.**

### **Cymraeg i'r Teulu**

#### **Cyrsiau iaith Gymraeg**

Mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi parhau i ddarparu cyrsiau Cymraeg i'r Teulu a chynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol eraill i rieni gyda'u plant. Bydd Endid Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sydd newydd ei sefydlu, yn arwain y sector o ran datblygu Cymraeg i'r Teulu yn y dyfodol.

#### **Twf**

Gwnaeth rhwydwaith Twf o swyddogion maes roi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i famau beichiog, rhieni newydd a'u teuluoedd am fanteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. Gwnaed hyn trwy gynnal sgysiau wyneb yn wyneb â rhieni a darpar rieni a chynnal gweithgareddau hyrwyddo lleol a chenedlaethol.

Yn ystod 2014-15, rhoddwyd cyflwyniadau i bron 2,000 o rieni mewn grwpiau cyn ac ôl-eni ar gyflwyno'r Gymraeg i'w plant. Yn ogystal, cafodd swyddogion maes Twf gyswllt un-i-un gyda thros 9,000 o ddarpar famau a mamau newydd mewn clinigau ar draws Cymru.

Bu pwyslais cynyddol ar ddatblygu a chynnal grwpiau/sesiynau Amser Twf i gefnogi rhieni ar draws Cymru. Cyrhaeddwyd dros 5,600 o rieni mewn 90 o leoliadau amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd swyddogion maes Twf i weithio'n agos gyda'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion i farchnata'r cyrsiau Cymraeg o'r Crud ymhlith rhieni/gofalwyr plant o fewn rhwydweithiau Twf. Maent hefyd wedi parhau i gynnal cefnogaeth ac anogaeth i rieni/gofalwyr sy'n rhan o'r cyrsiau hyn drwy sesiynau Amser Twf.

### **Tyfu gyda'r Gymraeg**

Parhawyd i weithredu prosiect peilot Tyfu gyda'r Gymraeg yn ardaloedd Caerffili, Pen-y-bont a Rhondda Cynon Taf, sy'n cefnogi teuluoedd i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.

Adeiladwyd ar y partneriaethau a ddatblygwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y peilot gyda darparwyr gofal, cylchoedd meithrin, penaethiaid ysgolion cynradd, awdurdodau lleol a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, er mwyn cefnogi a datblygu'r ddarpariaeth bresennol.

Cafodd swyddogion maes Tyfu gyda'r Gymraeg gyswllt un-i-un gyda thros 800 o rieni mewn ystod o ddigwyddiadau ar draws y tair ardal er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth iddynt i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.

### **Cyfleoedd anffurfiol a chyfleoedd heb fod yn ffurfiol mewn lleoliadau addysg**

Anogwyd awdurdodau lleol i roi mwy o bwyslais ar gefnogi'r broses o gynllunio'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion drwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

### **Cyfleoedd anffurfiol a chyfleoedd heb fod yn ffurfiol yn y gymuned**

#### **Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc**

Mae'r prosiect hwn yn weithredol ers 2007. Eleni cafodd ei gynnal mewn 24 o ysgolion uwchradd ar draws Cymru. Pwrpas y prosiect yw cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. Caiff y prosiect ei weithredu mewn partneriaeth gan Trywydd Cyf ac Urdd Gobaith Cymru, ac mae dysgwyr Blynyddoedd 12 yn y mwyafrif o ysgolion (gyda rhai eithriadau i ddysgwyr blynyddoedd 10 ac 11 yn yr ysgolion hynny lle na cheir chweched dosbarth) yn ymgeisio am gyllid i gynnal gweithgareddau amrywiol ar gyfer grŵp oedran penodol o fewn eu hysgol (fel arfer targedir dysgwyr iau neu gyfoedion o'r un flwyddyn). Y dysgwyr eu hunain felly sy'n cymryd y cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol yn eu hysgolion, gan fod tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc yn ymateb yn gadarnhaol i arweiniad/mewnbwn gan gyfoedion. Ar ôl adolygu blwyddyn gyntaf y contract presennol penderfynwyd cynyddu nifer y prosiectau ag elfen gymunedol. Felly, ar gyfer 2014–15, cynhaliodd 12 o'r 24 ysgol brosiect cymunedol oedd yn amrywio o sefydlu ap er mwyn hyrwyddo digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned i gyfres o gyngherddau Cymraeg yn y gymuned.

Er mwyn mesur effaith y prosiect, roedd gofyn i bob un o'r dysgwyr fu'n rhan o'r gwaith sefydlu yn eu hysgol gwblhau holiadur i asesu eu defnydd o'r iaith ar ddechrau'r prosiect, ac yna ail-gwblhau'r holiadur ar ddiwedd cyfnod y prosiect. O'r rhai a holwyd roedd 86 y cant wedi dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg o ganlyniad i'r prosiect.

#### **Urdd Gobaith Cymru**

Derbyniodd yr Urdd grantiau gan Lywodraeth Cymru yn 2014-15 er mwyn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cymdeithasol i dros 50,000 o aelodau rhwng 8-25 mlwydd oed. Ceir canghennau ar draws Cymru sy'n cynnig rhaglen eang o weithgareddau mewn meysydd poblogaidd megis chwaraeon a

pherfformio. Gwelwyd datblygiadau cyffrous yn 2014/15 wrth i'r Urdd ehangu cyfleoedd i wirfoddoli o fewn y mudiad, yn ogystal â datblygu rhaglenni prentisiaeth a chyfleoedd i ennill achrediadau a chymwysterau penodol. Mae'r Gwersylloedd yn parhau i ddenu tua 38,000 o blant a phobl ifanc, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau antur ac addysgiadol. Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus ym Meirionnydd - penllanw cystadlu ar draws Cymru gyda 48,000 o gystadleuwyr mewn 200 o gystadlaethau llwyfan. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd cynnal cynhadledd 'Dim ond Atebion' gan Fforwm Ieuenctid yr Urdd, Bwrdd Syr Ifan C. Roedd yn gyfle i aelodau hŷn o bob rhan o Gymru drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg yng nghwmni'r Prif Weinidog, Carwyn Jones.

### **Gwasanaeth Ieuenctid**

Nod Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (2014-2018) yw codi statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth a phroffesiwn. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y gall gwaith ieuenctid gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau:

- bod pobl ifanc ar draws Cymru'n gallu parhau i fanteisio ar gyfleoedd dysgu amrywiol anffurfiol a heb fod yn ffurfiol i ehangu eu gorwelion a chynyddu eu hyder.
- bod y berthynas rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol ar lefel leol a chenedlaethol yn cael ei chryfhau. Mae hyn yn cynnwys rhoi rôl fwy ffurfiol i weithwyr ieuenctid o ran cefnogi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant – rhan annatod o Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- bod pobl ifanc yn cael cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid mwy cyson sydd wedi'i chydgysylltu'n well, gyda sefydliadau gwaith ieuenctid yn y sector statudol a gwirfoddol yn cydweithio'n fwy effeithiol.
- bod y gwasanaeth yn gallu dangos effaith a chanlyniadau gwaith ieuenctid.

Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i helpu i ddatblygu'r iaith Gymraeg a darparu ar gyfer dysgwyr Gymraeg wrth gynllunio a darparu gwaith ieuenctid, p'un a yw'n ddarpariaeth mynediad agored neu'n ddarpariaeth wedi'i thargedu.

Dangosodd Archwiliad Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol 2013-14 fod 117, 196 o bobl ifanc yn aelodau cofrestredig o ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, sef 20 y cant o'r boblogaeth o bobl ifanc 11 i 25 oed. Nodwyd hefyd bod cyfanswm o 415 o brosiectau diwylliant Cymreig wedi cael eu darparu.

### **Gyrfa Cymru**

Mae Gyrfa Cymru'n parhau i ddarparu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd a dwyieithog ar yrfaeod i bobl o bob oed yng Nghymru.

Yn 2014-15, diwygiwyd gwefan gyrfacymru.com. Yn sgil hyn, mae gwybodaeth am y farchnad lafur yn cael ei chyflwyno mewn ffordd fwy hygyrch, gweledol a hawdd ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu bod modd i ddefnyddwyr y wefan sy'n ymchwilio i ddewisiadau gyrfa gael ciplun cyflym o brif nodweddion gyrfa posibl. Caiff gwybodaeth fel cyflogau cyfartalog, oriau gwaith, math o waith, lefel y cymwysterau sydd eu hangen, a lefel y galw yng Nghymru ei chyflwyno mewn ffordd symlach ar sail 'eiconau'. Yn ogystal, mae'r cyngor a'r cyfarwyddyd a ddarperir gan gynghorwyr gyrfaoedd a thrwy'r wefan a'r llinell gymorth ac ati yn cael ei lywio gan gyrff proffesiynol fel Cynghorau Sgiliau Sector, cyflogwyr, data am y farchnad lafur, gwaith ymchwil, a thueddiadau a chyfleoedd cyflogaeth ar lefel leol, ranbarthol a Chymru gyfan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch lefel y galw am sgiliau iaith Gymraeg mewn sectorau a gyrfaoedd penodol neu lwybrau dysgu. Ewch i'r dudalen *Y Gymraeg yn y Gweithle*.

<http://www.careerswales.com/cy/offer-ac-adnoddau/dewis-da-y-gymraeg-yn-y-gweithle/>



## Targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, adroddiad Mawrth 2015

<b>Deilliant 1</b>			
Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.			
<b>Dangosydd</b>	<b>Llinell sylfaen</b>	<b>Targedau</b>	
		<b>2009</b>	<b>2015</b>
Canran y disgyblion ym Mlwyddyn 2 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf)	21%	25%	30%

### Dangosydd Deilliant 1

	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
<b>Nifer</b>	6,919	6,621	6,599	6,428	6,524	6,365	6,560	6,728	7,229	7,468	7,594
<b>Garfan</b>	35,612	33,750	33,000	31,611	31,116	30,329	30,061	30,655	32,960	33,398	34,175
<b>%</b>	19.4%	19.6%	20.0%	20.3%	21.0%	21.0%	21.8%	21.9%	21.9%	22.4%	22.2%

Roedd dros fil yn fwy o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn 2014 nag yn 2010. Fodd bynnag, er bod twf wedi bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, nid yw'r twf wedi bod i'r graddau y byddai Llywodraeth Cymru wedi'i ddisgwyl. Serch hynny, mae'r garfan Blwyddyn 2 wedi cyrraedd y nifer uchaf ers 2004 er, oherwydd bod y garfan gyfan o ddysgwyr saith-oed wedi cynyddu, mae canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg wedi gostwng am y tro cyntaf. Mae hyn yn dangos bod angen rhoi mwy o sylw i sicrhau twf cynaliadwy a pharhaus mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Er gwaethaf cyflwyniad Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ar sail statudol, nid yw wedi bod yn bosib i gyflawni Deilliant 1.

### Awdurdodau lleol

Ers 2010, cofnodwyd cynnydd yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg mewn 14 awdurdod lleol, gyda Chastell-nedd Port Talbot yn cynyddu 3.8 pwynt canran, Wrecsam 2.6 pwynt canran a Chaerffili yn sylweddol o 5.4 pwynt canran. Fodd bynnag, nid yw'r twf hwn yn gyson ar draws Cymru a chofnodwyd gostyngiad mewn wyth awdurdod lleol, gyda'r gostyngiad mwyaf o 2.2 pwynt canran yn Sir Benfro. Bydd gofyn i awdurdodau lleol sydd wedi cofnodi gostyngiad yn Neilliant 1 ar hyd y cyfnod ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ddangos yn eu CSGA diwygiedig yn 2015 sut y byddant yn mynd i'r afael â'r gostyngiad a welwyd dros amser. Yn rhanbarthol, y De-ddwyrain sydd wedi gweld y twf mwyaf ond mae'n destun pryder bod gostyngiad wedi bod yng Nghanolbarth y De a Gogledd Cymru o ran y ganran, er bod twf wedi bod o ran y niferoedd yn y ddwy ranbarth.

	2010 (Nifer)	2014 (Nifer)	2011-14 (Nifer)		2010 (%)	2014 (%)	2010-14 (%)
Ynys Môn	456	520	64		70.2	72.1	2.0
Gwynedd	1,152	1,244	92		99.7	97.8	-1.9
Conwy	241	284	43		25.0	25.1	0.1
Sir Ddinbych	204	262	58		23.2	24.5	1.4
Sir y Fflint	103	102	-1		6.7	5.7	-1.0
Wrecsam	130	189	59		9.4	12.0	2.6
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>2,286</b>	<b>2,601</b>	<b>315</b>		<b>34.8</b>	<b>34.5</b>	<b>-0.3</b>
Powys	208	250	42		16.9	19.3	2.4
Ceredigion	455	500	45		76.1	74.0	-2.1
Sir Benfro	241	257	16		21.9	19.7	-2.2
Sir Gaerfyrddin	969	1,097	128		55.0	55.4	0.4
Abertawe	318	365	47		13.5	14.1	0.6
Castell-nedd Port Talbot	191	279	88		14.9	18.7	3.8
<b>De-orllewin a Chanolbarth Cymru</b>	<b>2,382</b>	<b>2,748</b>	<b>366</b>		<b>28.6</b>	<b>29.4</b>	<b>0.9</b>
Pen-y-bont ar Ogwr	141	139	-2		10.2	8.6	-1.5
Bro Morgannwg	178	204	26		13.1	12.9	-0.1
Rhondda Cynon Taf	525	533	8		20.3	19.9	-0.4
Merthyr Tudful	64	80	16		11.2	11.7	0.6
Caerdydd	509	618	109		15.2	15.1	-0.1
<b>Canolbarth y De</b>	<b>1,417</b>	<b>1,574</b>	<b>157</b>		<b>15.3</b>	<b>14.8</b>	<b>-0.5</b>
Caerffili	262	388	126		13.4	18.9	5.4
Blaenau Gwent	28	37	9		4.6	5.1	0.5
Torfaen	77	109	32		9.0	10.2	1.2
Sir Fynwy	46	51	5		5.5	5.8	0.3
Casnewydd	61	79	18		4.0	4.5	0.4
<b>De-ddwyrain Cymru</b>	<b>474</b>	<b>664</b>	<b>190</b>		<b>8.2</b>	<b>10.2</b>	<b>2.0</b>
<b>Cymru</b>	<b>6,560</b>	<b>7,594</b>	<b>1,034</b>		<b>21.8</b>	<b>22.2</b>	<b>0.4</b>

## Deilliant 2

Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dangosydd	Llinell sylfaen	Targedau	
	2009	2015	2020
Canran y disgyblion ym Mlwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf).	16%	19%	23%
	16%	19%	23%
	16%	19%	23%

## Dangosydd Deilliant 2

	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
<b>Nifer</b>	5,575	5,544	5,999	5,627	5,800	5,594	5,550	5,862	5,787	5,668	5,540
<b>Carfan</b>	38,544	38,879	38,256	36,822	36,262	35,221	34,717	35,903	34,520	33,380	32,354
<b>%</b>	14.4%	14.4%	15.7%	15.3%	16.0%	15.9%	16.0%	16.3%	16.8%	17.0%	17.1%

Mae cynnydd bach i'w weld yng nghanran y dysgwyr 14 oed a asesir yn y Gymraeg. Defnyddir Deilliant 2 fel mesur o ddilyniant ieithyddol, yn benodol o ran trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i 3. Wrth gymharu dilyniant dysgwyr Blwyddyn 6 yn 2011 i Flwyddyn 9 yn 2014 gyda dysgwyr mewn carfannau blaenorol (2008-11, 2009-12 and 2010-13), gellir gweld bod cyfraddau dilyniant yn Ne-ddwyrain Cymru yn parhau yn gyson a bod rhywfaint o gynnydd yn y rhanbarthau eraill. Y tri awdurdod lleol sydd wedi profi'r gostyngiad mwyaf yw Gwynedd, Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin. Bydd gofyn i'r awdurdodau lleol hyn roi hyd yn oed mwy o sylw i gefnogi dilyniant ieithyddol yn eu CSGA diwygiedig yn 2015.

Consortia	Blwyddyn 6 2011	Blwyddyn 9 2014	BI 6-9 2011-14	BI 6-9 2010-13	BI 6-9 2009-12	BI 6-9 2008-11
Ynys Môn	530	418	-112			
Gwynedd	1,264	1,059	-205			
Conwy	238	201	-37			
Sir Ddinbych	220	225	5			
Sir y Fflint	77	75	-2			
Wrecsam	117	120	3			
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>2,446</b>	<b>2,098</b>	<b>-348</b>	<b>-346</b>	<b>-294</b>	<b>-574</b>
Powys	176	139	-37			
Ceredigion	489	453	-36			
Sir Benfro	249	192	-57			
Sir Gaerfyrddin	934	761	-173			
Abertawe	266	257	-9			
Castell-nedd Port Talbot	223	150	-73			
<b>De-orllewin a Chanolbarth Cymru</b>	<b>2,337</b>	<b>1,952</b>	<b>-385</b>	<b>-430</b>	<b>-460</b>	<b>-509</b>
Pen-y-bont ar Ogwr	107	101	-6			
Bro Morgannwg	145	137	-8			
Rhondda Cynon Taf	452	501	49			
Merthyr Tudful	68	0	-68			
Caerdydd	397	369	-28			
<b>Canolbarth y De</b>	<b>1,169</b>	<b>1,108</b>	<b>-61</b>	<b>-91</b>	<b>-73</b>	<b>-181</b>
Caerffili	249	239	-10			
Blaenau Gwent	27	0	-27			
Torfaen	56	143	87			
Sir Fynwy	31	0	-31			
Casnewydd	40	0	-40			
<b>De-ddwyrain Cymru</b>	<b>403</b>	<b>382</b>	<b>-21</b>	<b>-22</b>	<b>-19</b>	<b>-24</b>
<b>Cymru</b>	<b>6,361</b>	<b>5,540</b>	<b>-821</b>	<b>-890</b>	<b>-846</b>	<b>-1,288</b>

<b>Deilliant 3</b>			
Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg			
<b>Dangosyddion</b>	<b>Llinell sylfaen</b>	<b>Targedau</b>	
		<b>2009</b>	<b>2015</b>
<b>3a.</b> Canran y disgyblion a gofrestrir ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrir ar gyfer o leiaf ddau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.	80.9%	84%	88%
<b>3b.</b> Canran y disgyblion a gofrestrir ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrir ar gyfer o leiaf bum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.	58.4%	62%	68%

\*ac eithrio Cymraeg iaith gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg; mae TGAU Cymhwysol a Gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau gymhwyster; mae cyrsiau byr yn cyfrif fel un cymhwyster; yn seiliedig ar ddata CBAC yn unig.

<b>Dangosydd</b>	<b>2010</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>
<b>3a.</b> O leiaf dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg	79.5%	81.0%	85.3%	81.6%	79.3%
<b>3b.</b> O leiaf bum pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg	59.7%	62.2%	64.9%	55.5%	52.5%

Cyflawnwyd targed 2015 ar gyfer y ddau ddangosydd yn 2012. Yn anffodus, mae ffigurau eleni unwaith eto yn cael eu heffeithio gan niferoedd cynyddol y disgyblion sy'n astudio pynciau galwedigaethol fel cyrsiau BTEC. Er enghraifft, cofrestrwyd 36,300 o ddysgwyr ar gyrsiau BTEC yn 2014 o'i gymharu ag 11,900 yn 2011. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu hasesu'n barhaus ac ni chaiff data cyfrwng Cymraeg eu casglu. Gan fod rhai o'r cymwysterau hyn yn cyfateb ar hyn o bryd i fwy nag un cymhwyster TGAU cyfatebol, mae'n anoddach i lawer o ddysgwyr astudio pum cymhwyster TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg.

<b>Deilliant 4</b>			
Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.			
<b>Dangosyddion</b>	<b>Gwaelodlin</b>	<b>Targedau</b>	
		<b>2007/08 CC+D**</b>	<b>2015 CC + D**</b>
<b>Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)*</b>			
Ysgolion	14.9%	18%	20%
Sefydliadau addysg bellach	4.7%	7%	10%
Dysgu seiliedig ar waith	1.4%	2.5%	4%

\* Ac eithrio addysg iaith Gymraeg

\*\* CC = Cyfrwng Cymraeg, D = Dwyieithog

Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)	2008/9*	2009/10*	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14
	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D
Ysgolion	17.0%	17.1%	21.0%	17.4%	20.1%	20.5%
Sefydliadau addysg bellach	6.1%	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%	8.5%
Dysgu seiliedig ar waith	1.8%	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%	3.0%

\*Cyn 2010/11, roedd data ar gyfer dysgu seiliedig ar waith wedi'i ddarparu gan sefydliadau addysg bellach, yn cael ei gategoreiddio o dan 'Sefydliadau addysg bellach'. Ers 2010/11 mae'r data yma wedi'i gategoreiddio o dan 'Dysgu seiliedig ar waith'.

Defnyddir y deilliant hwn fel dull o fesur faint o ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a ddarperir ar draws Cymru. Mae'n galonogol nodi bod targed 2020 wedi cael ei gyflawni gan yr ysgolion, a bod colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith wedi cyflawni targed 2015.

Yr her yn awr yw sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod ariannol anodd. Bydd grant newydd i gefnogi darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2016 a ddylai alluogi'r sector i barhau i gynyddu'r ddarpariaeth o flwyddyn i flwyddyn.

<b>Deilliant 5</b>			
<b>Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.</b>			
Dangosyddion	Gwaelodlin	Targedau	
		2009	2015
<b>5a.</b> Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ddwy flynedd yn gynharach	6.7%	7%	8%
<b>5b.</b> Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Ail Iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach	3.0%	3.5%	4%

#### 2010: Dangosydd 5a – Iaith gyntaf

	2009	2010	2011	2012	2013	2014
%	6.7%	6.7%	6.8%	5.5%	5.9%	5.3%
<b>Nifer</b>	345	363	357	303	315	279

#### 2010: Dangosydd 5b – Ail iaith

	2009	2010	2011	2012	2013	2014
%	2.9%	2.4%	2.6%	2.3%	1.9%	1.8%
<b>Nifer</b>	593	497	541	511	434	409

Er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith yn llwyddiannus mae angen cyflenwad digonol o raddedigion prifysgol yn y Gymraeg, a hynny o gronfa o ddysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg Safon Uwch. Nod y deilliant hwn felly yw atal ac yn y pen draw wrthdroi'r gostyngiad a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwelwyd cynnydd cyson mewn niferoedd TGAU Cymraeg iaith gyntaf dros y pum mlynedd ers cyhoeddi'r Strategaeth (o 5,391 i 5,546). Yn ogystal, gwelwyd cynnydd mewn niferoedd TGAU Cymraeg ail iaith dros y pum mlynedd (o 21,424 i 21,661). Fodd bynnag, byddai nifer o'r ymgeiswyr hyn wedi bod ar gyfer y Cwrs Byr TGAU Cymraeg ail iaith, gan leihau nifer y dysgwyr fyddai'n parhau i astudio Cymraeg ail iaith Safon Uwch.

Mae'r data'n dangos bod nifer y dysgwyr ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith wedi bod yn gostwng dros y tair mlynedd diwethaf, a bellach wedi cyrraedd y nifer isaf dros gyfnod o ddeng mlynedd. Gobeithir y bydd y TGAU Cymraeg iaith gyntaf, a fydd yn cael ei addysgu o fis Medi 2015, yn cael effaith bositif ar nifer y dysgwyr fydd yn dewis astudio Cymraeg Safon Uwch. Mae angen gweddnewid dysgu ac addysgu Cymraeg ail iaith ar draws yr holl gyfnodau allweddol fel rhan o newidiadau cwricwlwm ehangach, a bydd rhaid ystyried y dilyniant i Safon Uwch ac addysg uwch wrth gynllunio newidiadau er mwyn wrthdroi'r gostyngiad sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.